

TGAU



TGAU CBAC BUSNES

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Fersiwn 2 Ionawr 2019

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll.	34



TGAU CBAC mewn BUSNES

I'w addysgu o 2017

I'w ddyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni Meini Prawf Cymeradwyo TGAU Busnes ac Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y Pwnc	6
3. Asesu	33
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	33
4. Gwybodaeth dechnegol	34
4.1 Cofrestru	34
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	34
Atodiad: Defnyddio sgiliau meintiol	35

TGAU BUSNES (CYMRU)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Byd Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

62.5% o'r cymhwyster

100 Marc

Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb

Uned 2: Canfyddiadau Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

37.5% o'r cymhwyster

60 Marc

Cwestiynau ymateb i ddata yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Caiff ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/1155/5

TGAU BUSNES

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Bydd y fanyleb TGAU hon mewn Busnes yn galluogi dysgwyr i:

- ymgysylltu ag astudio busnes er mwyn datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol gyda meddyliau holgar.
- defnyddio dull holgar a beirniadol o wahaniaethu rhwng ffeithiau a safbwyntiau, i greu dadleuon a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau busnes i faterion cyfoes mewn amrediad o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
- gwerthfawrogi amrediad o safbwyntiau ar effeithiau busnes ar y gymdeithas ehangach
- ystyried i ba raddau y gall gweithgaredd busnes fod yn foesebol a chefnogi datblygiad cynaliadwy
- datblygu a chymhwyso sgiliau meintiol sy'n berthnasol i fusnes yn cynnwys defnyddio a dehongli data
- cymhwyso a pherthnasu gwybodaeth a dealltwriaeth â mentrau a chyfleoedd busnes go iawn, gwneud penderfyniadau a senarios.

Mae'r fanyleb TGAU hon yn cyflwyno dysgwyr i fyd busnes, gan eu grymuso i ddatblygu fel unigolion mentrus sydd â meddyliau masnachol. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, fydd yn eu galluogi i ddefnyddio gwybodaeth fusnes yn feirniadol, i ddatblygu dadleuon, i wneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau, a'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach a llwybrau gyrfaedd.

Ffocws y fanyleb yw cyflwyno a meithrin brwdfrydedd tuag at astudio busnes mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi sut mae busnesau yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig a chystadleuol ac yn datblygu dealltwriaeth o natur gyd-ddibynnol gweithrediadau busnes, o safbwynt lleol i safbwynt byd-eang.

Mae'r fanyleb hon hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig estynedig ac arddangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/ coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Busnes naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Tystysgrif Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae cynnwys y pwnc yn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wahanol gyd-destunau busnes, yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau o fentrau busnes bach i gwmnïau rhyngwladol mawr a busnesau sy'n gweithredu mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r modd y mae'r cyd-destunau hyn yn effeithio ar ymddygiad busnes.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o rôl bwysig y busnesau hyn yn economi Cymru a gweddill y DU.

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol ym myd busnes a datblygu dealltwriaeth o ddynwedd gweithgaredd busnes ac ystyried data sy'n gysylltiedig ag amgylchedd busnes Cymru. Dylai dysgwyr ymchwilio i'r byd busnes go iawn er mwyn datblygu dealltwriaeth o gyfleoedd a materion busnes cyfoes.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y pwnc i wneud penderfyniadau busnes, yn cynnwys:

- natur gyd-ddibynnol gweithgaredd busnes, dylanwadau ar fusnes, gweithrediadau busnes, cyllid, marchnata ac adnoddau dynol; a sut mae'r rhyngddibyniaeth hon yn sail i benderfyniadau busnes
- sut mae gwahanol gyd-destunau busnes yn effeithio ar benderfyniadau busnes
- defnyddio ac ystyried cyfyngiadau data meintiol ac ansoddol wrth wneud penderfyniadau busnes

Disgwylir i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y pwnc i:

- ddefnyddio terminoleg busnes er mwyn adnabod ac esbonio gweithgaredd busnes
- cymhwyso cysyniadau busnes i gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- datblygu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i fusnes
- ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd a materion busnes
- gwneud penderfyniadau y gallir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol yn cynnwys ei ddewis, dehongli, dadansoddi a gwerthuso, a chymhwyso sgiliau meintiol priodol

Disgwylir i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau mathemategol a gwneud penderfyniadau y gallir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol wedi eu cymhwyso i gyd-destun TGAU Busnes. Bydd y sgiliau meintiol hyn yn cael eu hasesu yn y ddau bapur arholiad, ac yn cynrychioli o leiaf 10% o gyfanswm y marciau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae'r atodiad yn rhestru amrediad a swm y technegau mathemategol y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu cymhwyso i gyd-destunau busnes perthnasol.

Gellir defnyddio cyfrifiannell yn y ddau bapur arholiad. Mae cyfrifoldeb ar ddysgwyr i sicrhau bod eu cyfrifiannellau yn cwrdd â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer eu defnydd mewn arholiadau ysgrifenedig: mae gwybodaeth ar gael yng nghyhoeddiadau'r CGC/JCQ Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau a Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Arholiadau Ysgrifenedig.

Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno mewn chwe maes testun clir a phenodol:

- Gweithgaredd busnes
- Dylanwadau ar fusnes
- Gweithrediadau busnes
- Cyllid
- Marchnata
- Adnoddau dynol

Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn gyntaf yn nodi'r cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r ail golofn yn ymhelaethu ar y cynnwys hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys cyflawn y fanyleb. Rhaid i ddysgwyr astudio cynnwys y ddwy golofn.

Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac er nad yw'n awgrymu trefn ddysgu ragnodedig, argymhellir bod Gweithgaredd Busnes a Dylanwadau ar Fusnes yn cael eu hastudio yn gyntaf.

Bydd cynnwys pwnc TGAU Busnes yn cael ei asesu mewn dau bapur arholiad:

Uned 1: Byd Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
62.5% o'r cymhwyster

Uned 2: Canfyddiadau Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
37.5% o'r cymhwyster

Cyfanswm marciau: 100

Cyfanswm marciau: 60

Mae'r ddwy uned yn asesu cynnwys o'r chwe maes testun, felly bydd yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o bob elfen o gynnwys y pwnc ym mhob asesiad.

1 Gweithgaredd Busnes

Mae angen i ddysgwyr ddeall natur gweithgaredd busnes a sut mae'n ymwneud â bodloni anghenion cwsmeriaid drwy ddarparu cynnyrch neu wasanaeth, yn y rhan fwyaf o achosion, er mwyn gwneud elw. Yn ganolog i weithgaredd busnes y mae mentergarwch ac entrepreneuriaid; nhw sy'n cychwyn a thyfu busnesau, gydag amrediad eang o nodau ac amcanion. Yn aml mae'r amcanion hyn yn newid wrth i fusnes dyfu ac wrth i'r farchnad a'r amgylchedd cystadleuol y maent yn gweithredu ynddynt newid. Mae busnesau'n amrywio o ran maint a pherchenogaeth ac maent yn gweithredu mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae gan fusnesau nifer o randdeiliaid yr effeithir arnynt gan weithgaredd busnes a gallant hefyd ddylanwadu ar ymddygiad busnes.

1.1 Natur gweithgaredd busnes

Cynnwys

Ymhelaethiad

Natur gweithgaredd busnes

Yn cynnwys:

- Yr amgylchedd cystadleuol
- Yr amgylchedd dynamig
- Adnabod ac ymateb i gyfleoedd busnes
- Meintiau gwahanol ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang
- Natur gyd-ddibynnol gweithgaredd busnes (gweithredoedd mewn un rhan o'r busnes yn effeithio ar ganlyniadau mewn rhan arall o'r busnes)

Defnyddio data busnes mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol er mwyn deall gweithgaredd busnes a chynorthwyo datrys problemau a gwneud penderfyniadau

Yn cynnwys data ansoddol a meintiol, graffiau, tablau a siartiau

Defnyddio technegau mathemategol i gyfrifo data mewn cyd-destun busnes

Yn cynnwys cyfrifo canrannau, newidiadau canrannol a chyfartaleddau

Dehongli data ansoddol a meintiol mewn cyd-destun busnes er mwyn datrys problemau a chynorthwyo, hysbysu a chyfiawnhau penderfyniadau busnes

Yn cynnwys dewis, dehongli, dadansoddi a gwerthuso data megis cyfran o'r farchnad, data ariannol, data marchnata, newidiadau mewn cost a newidiadau mewn prisiau

1.2 Darparu nwyddau a gwasanaethau

Cynnwys

Ymhelaethiad

Darparu nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr

Gwahaniaethu rhwng nwyddau traul (defnyddwyr) a nwyddau cynhyrchwyr, nwyddau sy'n para a nwyddau sydd ddim yn para a gwasanaethau personol a masnachol

Gwahaniaethu rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus o ran darparu nwyddau a gwasanaethau

Nid oes angen i ddysgwyr gael gwybodaeth fanwl am y sector cyhoeddus

Mae angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â phwrpas a'r mathau o nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ac enghreifftiau o gyrff yn y sector preifat a chyhoeddus

Yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau

Yn cynnwys defnyddiau crai, peirianwaith ac offer, gweithwyr a safle

1.3 Menter busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Beth yw menter busnes	
Rôl yr entrepreneur mewn gweithgaredd busnes a chynorthwyo busnesau newydd eu cychwyn	Yn cynnwys blaengarwch, arloesedd, adnabod cyfleoedd a threfnu adnoddau
Y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau newydd eu cychwyn	Yn cynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru (megis Busnes Cymru), gwefannau cyngori busnesau bach, banciau masnachol ac Ymddiriedolaeth y Tywysog
Nodweddion entrepreneur	Yn cynnwys bod yn rhywun sy'n cymryd risgiau, mentro, gwneud penderfyniadau, trefnu'r busnes, bod yn arloesol, gweithio'n galed a bod yn benderfynol
Cymhellion entrepreneuriaid	Yn cynnwys ariannol, anariannol a chymdeithasol/cymunedol (mentrau cymdeithasol)
Risgiau a gwobrau mentro mewn busnes	Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r mathau o risgiau cysylltiedig megis gwerthiant isel, costau annisgwyl a digwyddiadau annisgwyl Gall gwobrau gynnwys (elw) ariannol ac anariannol megis boddhad, creu rhywbeth newydd ac adborth da gan gwsmeriaid Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o fentergarwch i wahanol gyd-destunau busnes
1.4 Cynllunio busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Cydnabod pwysigrwydd cynllunio busnes	Mae cynllunio busnes nid yn unig yn bwysig i fusnesau newydd, ond hefyd i fusnesau sefydledig
Rôl y cynllun busnes mewn busnesau newydd eu cychwyn	Yn cynnwys fel offeryn gwneud penderfyniadau, ceisio cyllid/buddsoddiad, er mwyn dangos gweledigaeth o'r dyfodol ac fel offeryn rheoli
Prif adrannau cynllun busnes	Mae amryw fathau o gynlluniau busnes, fodd bynnag mae'r prif adrannau yn tueddu i gynnwys disgrifiad o'r busnes, marchnata, cyllid, gweithrediadau cynhyrchu ac adnoddau dynol

Nodau ac amcanion busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Prif fathau o amcanion busnes	Yn cynnwys goroesi, uchafu elw, twf, cyfran o'r farchnad, boddhad cwsmeriaid, cymdeithasol/cymunedol a moesegol ac amgylcheddol
Rôl amcanion busnes o ran helpu busnes i wireddu ei nodau, gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad busnes	
Defnyddio amcanion SMART mewn busnes	Penodol, Mesuradwy, Cytunedig, Realistig, Amseredig Disgwylir i ddysgwyr greu a dadansoddi amcanion SMART, megis cynyddu elw o 10% yn ystod y 12 mis nesaf, mewn gwahanol gyd-destunau
Sut mae nodau ac amcanion busnes yn amrywio rhwng busnesau	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o nodau ac amcanion busnes i wahanol gyd-destunau busnes
Sut mae nodau ac amcanion yn newid mewn amgylchedd busnes cystadleuol a dynamig	Gallai achos y newid fod yn ffactorau mewnol megis twf busnes neu ffactorau allanol megis cynnydd mewn incwm defnyddwyr
Yr amrediad o randdeiliaid sy'n rhan o weithgaredd busnes	Yn cynnwys perchenogion, gweithwyr, rheolwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr, llywodraeth a chymunedau lleol
Sut mae rhanddeiliaid yn dylanwadu ar weithgaredd busnes a phenderfyniadau busnes	Yn cynnwys gwneud penderfyniadau, nodau ac amcanion, materion gweithredol, gwerthiant, costau ac elw
Effaith nodau ac amcanion busnes ar randdeiliaid	Yn cynnwys cyllid, cyflogaeth, gweithredol, cymdeithasol, cynhyrchion a gwasanaethau
Sut y gall penderfyniadau busnes arwain at effeithiau cyferbyniol ar randdeiliaid	Disgwylir i ddysgwyr ddeall y bydd anghytuno a gwrthdaro rhwng rhanddeiliaid oherwydd bod cymaint ohonynt Mae anghytuno a gwrthdaro yn cynnwys uchafu elw, cyflogau isel, difrod amgylcheddol, cynhyrchion o safon isel a thalu'n hwyr am ddefnyddiau

1.6 Perchenogaeth busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Prif nodweddion busnesau atebolrwydd anghyfngedig	Yn cynnwys unig fasnachwyr a phartneriaethau
Prif nodweddion busnesau atebolrwydd cyfyngedig	Yn cynnwys cwmnïau preifat a chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus Nid oes angen i ddysgwyr wybod am broses gyfreithiol corfforiad Disgwylir i ddysgwyr ddeall cysyniad atebolrwydd cyfyngedig ac anghyfngedig a goblygiadau hyn wrth benderfynu ar berchenogaeth busnes
Manteision ac anfanteision dewis gwahanol fathau o berchenogaeth busnes	
Prif nodweddion mentrau cydweithredol ac elusennau	Yn cynnwys nodau, perchenogaeth a defnyddio elw Nid oes angen i ddysgwyr wybod am y broses o sefydlu mentrau cydweithredol ac elusennau
Y strwythur busnes mwyaf priodol mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Yn cynnwys busnesau newydd eu cychwyn, twf, ystyried nodau ac amcanion, atebolrwydd, maint, cyllid, rheolaeth, creu a dosrannu elw Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am berchenogaeth busnes i wahanol gyd-destunau busnes

1.7	Twf Busnes
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y rhesymau pam mae busnesau yn tyfu Gwahanol ddulliau o dyfu • Twf mewnol (organig) • Twf allanol (integreiddio) • Masnachfreintiau (trwyddedu) Manteision ac anfanteision gweithredu fel masnachfreintwr a deiliad masnachfaint Y dull mwyaf priodol o dyfu ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios Y rhesymau pam mae rhai busnesau yn aros yn fach	Yn cynnwys er mwyn cynyddu elw, gwella cyfran o'r farchnad, lleihau cystadleuaeth, amrywiaeth, taenu risgiau a buddion a darbodion maint mewnol Mae darbodion maint mewnol yn cynnwys prynu, marchnata, technegol, ariannol a gweinyddol Nid oes angen i ddysgwyr wybod am ddarbodion maint allanol ac annarbodion maint Yn cynnwys gwerthu mwy o gynnyrch cyfredol mewn marchnadoedd sy'n bodoli, chwilio am farchnadoedd newydd, lansio cynnyrch newydd, mwy o hysbysebu, hyrwyddo a buddsoddi Yn cynnwys cydsoddiad a throsfeddiannu (caffaeliadau) Mae disgwyl i ddysgwyr ddeall integreiddio llorweddol a fertigol (ymlaen ac yn ôl) a'r buddion a'r costau cysylltiedig Hefyd mae angen ystyried buddion amrywiaethu i farchnadoedd newydd Mae angen i ddysgwyr ddeall bod masnachfreintiau (trwyddedu) yn ddull o dyfu ar gyfer busnesau sefydledig (masnachfreintwr) ac yn gyfle busnes i'r deiliaid masnachfaint Disgwylir i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o sut mae model masnachfreintiau (trwyddedu) yn gweithio Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o dwf busnes i wahanol gyd-destunau busnes Yn cynnwys cyfyngiadau maint y farchnad (yn cynnwys cloer farchnadoedd), argaeledd cyfalaf a dymuniad yr entrepreneur/perchenogion

1.8 Lleoliad a safle busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ble mae busnes yn cael ei leoli	Yn cynnwys agosrwydd i farchnadoedd, costau, isadeiledd, cyflenwad llafur a defnyddiau Mae'r ffactorau hyn yn canolbwyntio ar ardal ddaearyddol y lleoliad
Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis safle busnes	Yn cynnwys hygyrchedd, nifer yr ymwelwyr, costau, maint, agosrwydd i gystadleuwyr a rhesymau personol Mae'r ffactorau hyn yn canolbwyntio ar safle penodol mewn lleoliad daearyddol
Dewis y lleoliad a'r safle mwyaf priodol ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am leoliad a safle busnes i wahanol gyd-destunau busnes
1.9 Natur gyd-ddibynnol busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Rôl y prif swyddogaethau mewn busnes	Yn cynnwys gweithrediadau busnes, cyllid, marchnata ac adnoddau dynol
Sut mae gwahanol swyddogaethau busnes yn gysylltiedig ac yn cydweithio i gyflawni nodau ac amcanion	Rhaid i ddysgwyr wybod nad yw gweithrediadau busnes, swyddogaethau cyllid, marchnata ac adnoddau dynol yn gallu gweithio ar eu pennau eu hunain a bod angen iddynt weithio gyda'i gilydd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau busnes

2 Dylanwadau ar fusnes

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod pob busnes yn gweithredu mewn amgylchedd allanol a bod nifer o ddylanwadau allanol sy'n effeithio ar weithgaredd busnes. Yn aml bydd methiant neu lwyddiant busnes yn dibynnu ar ei barodrwydd a'i allu i adnabod ac i ragdybio'r dylanwadau allanol hyn. Mae'n bwysig bod busnesau yn ymateb i'r dylanwadau hyn er mwyn parhau i fod yn gystadleuol a gwireddu eu nodau ac amcanion. Gall dylanwadau allanol effeithio ar fusnes a'i randdeiliaid mewn nifer o ffyrdd amrywiol a chroes.

2.1 Dylanwad technolegol ar weithgaredd busnes

Cynnwys	Ymhelaethiad
Sut mae newidiadau mewn technoleg yn effeithio ar weithgaredd busnes	Disgwylir i ddysgwyr ddeall y gall technoleg effeithio ar fusnesau mewn nifer o ffyrdd gwahanol a bod hynny'n newid yn barhaus
Defnyddio technoleg yn y gweithle	Yn cynnwys gweinyddu, cyfathrebu, recriwtio a rheoli stoc Disgwylir i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth eang o ddefnyddio pecynnau cyfrifiadurol yn y gweithle (nid yw cynhyrchion brand penodol yn ofynnol) yn cynnwys pecynnau prosesu geiriau ar gyfer prosesu gwybodaeth, cronfeydd data ar gyfer storio gwybodaeth, taenlenni ar gyfer gwneud cyfrifiadau, fideo-gynadleddau a rhwydweithio ar gyfer cyfathrebu, meddalwedd cyflwyno ar gyfer cyflwyniadau, pecynnau graffeg cyfrifiadurol ar gyfer hysbysebu a hyrwyddo a phecynnau dylunio gwefannau ar gyfer creu gwefannau
Defnyddio e-fasnach ac m-fasnach o ran gwerthu nwyddau a gwasanaethau	Mae e-fasnach yn cyfeirio at brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein ar y rhyngwrwyd, mae m-fasnach yn brynu drwy ddyfeisiau llaw diwifr Mae angen i ddysgwyr ddeall bod angen i fusnesau ddefnyddio'r datblygiadau technolegol diweddaraf i werthu eu cynnyrch mewn marchnad gystadleuol a dynamig
Defnyddio cyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfathrebu â cwsmeriaid	Mae angen i ddysgwyr ddeall sut mae cyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol wedi newid y ffyrdd y gall busnesau gyfathrebu â'u cwsmeriaid a sut y gall busnesau eu defnyddio i wireddu eu hamcanion Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r mathau diweddaraf o gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan fusnesau
Manteision ac anfanteision defnyddio technoleg newydd i fusnesau a'u rhanddeiliaid	Nid yw newid technolegol bob amser yn bositif ac mae iddo rai anfanteision megis mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg, cost (yn arbennig i fusnesau bach), colli swyddi, cau siopau'r stryd fawr a thoriadau diogelwch Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ddylanwadau technolegol i wahanol gyd-destunau busnes

2.2 Dylanwad moesegol ar weithgaredd busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Beth yw ystyr moeseg busnes Y gwrthdaro rhwng moeseg ac elw Y mathau o faterion moesegol sy'n dylanwadu ar weithgaredd busnes Manteision ac anfanteision mabwysiadu polisïau moesegol ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Yn cynnwys adnabod arferion busnes moesegol ac anfoesegol Yn cynnwys marchnata moesegol, cyflenwyr, hawliau anifeiliaid, cyfrifoldeb cymdeithasol, trin gweithwyr a masnach deg Mae angen i ddysgwyr ddeall bod gan y rhan fwyaf o fusnesau bolisïau moesegol, a bod rhai ohonynt yn mynd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol Yn cynnwys effeithiau cadarnhaol megis bod yn fwy deniadol i gwsmeriaid, sefydlogrwydd cyflenwyr, cymhelliant gweithwyr ac effeithiau negyddol megis yr effaith ar gostau busnes a phroffidioldeb Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ddylanwadau moesegol i wahanol gyd-destunau busnes
2.3 Dylanwad amgylcheddol ar weithgaredd busnes	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Costau amgylcheddol posibl gweithgaredd busnes Beth yw ystyr cynaliadwyedd Sut y gall busnesau ymateb i faterion amgylcheddol a gweithredu mewn modd cynaliadwy Manteision ac anfanteision gweithredu polisïau amgylcheddol gyfeillgar ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Yn cynnwys llygredd, newid hinsawdd, tagfeydd a defnyddio adnoddau cyfyngedig Mae'r ffocws ar gynaliadwyedd amgylcheddol a sut y gall gweithgaredd busnes fod yn niweidiol i'r amgylchedd neu beidio a sut y dylai ymdrechu i osgoi disbyddu adnoddau naturiol Yn cynnwys egni adnewyddadwy, pecynnu biddiraddadwy, cynlluniau ailgylchu, masnach deg, effeithlonrwydd dŵr a lleihau gwastraff Yn cynnwys effeithiau cadarnhaol megis bod yn fwy deniadol i gwsmeriaid, cymhelliant gweithwyr, llai o wastraff ac effeithiau negyddol megis yr effaith ar gostau busnes a phrisiau uwch i gwsmeriaid Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ddylanwadau amgylcheddol i wahanol gyd-destunau busnes

2.4	Dylanwad economaidd ar weithgaredd busnes
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar weithgaredd busnes	Yn cynnwys newid yn lefelau incwm defnyddwyr, diweithdra, chwyddiant, cyfraddau llog a chyfraddau treth Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â theori economaidd mewn perthynas â lefelau incwm defnyddwyr, diweithdra, chwyddiant, cyfraddau llog a chyfraddau treth Mae angen i ddysgwyr ddeall bod yr hinsawdd economaidd yn newid dros gyfnod o amser Dylai dysgwyr allu adnabod prif nodweddion economi Cymru a sut mae'r rhain yn effeithio ar weithgaredd busnes
Effaith y ffactorau economaidd hyn ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ddylanwadau economaidd i wahanol gyd-destunau busnes

2.5	Effaith globaleiddio ar fusnesau
Cynnwys	Ymhelaethiad
Beth yw ystyr masnach ryngwladol	Deall bod hyn yn cynnwys allforio a mewnfario
Manteision ac anfanteision masnach ryngwladol i fusnesau'r DU	Nid yw cysyniadau mantais gymharol ac absoliwt yn ofynnol Mae manteision masnach ryngwladol yn cynnwys twf, marchnadoedd newydd, lledaenu risgiau, cynyddu gwerthiant ac elw a rhannu gwybodaeth dechnegol Mae anfanteision yn cynnwys rhwystrau ieithyddol, problemau â'r gadwyn gyflenwi, materion sy'n ymwneud ag arian tramor a threthi a chyfreithiau lleol
Beth yw ystyr globaleiddio	Mae prif nodweddion globaleiddio yn cynnwys mwy o fasnachu rhyngwladol, datblygu cwmnïau rhyngwladol a symudiad rhydd llafur a chyfalaf ar draws ffiniau rhyngwladol
Cyfleoedd a bygythiadau i fusnesau sy'n gweithredu mewn marchnad fyd-eang	Mae cynnydd mewn masnach ryngwladol wedi arwain at lawer mwy o gyfleoedd, ond mwy o gystadleuaeth hefyd
Effaith globaleiddio ar fusnesau yn y DU a'u rhanddeiliaid	Mae angen i ddysgwyr wybod bod globaleiddio yn effeithio'n bositif ac yn negyddol ar fusnesau'r DU a'u rhanddeiliaid
Beth yw cwmni amlwladol	Mae globaleiddio wedi arwain at nifer mwy o gwmnïau amlwladol
Effaith cwmnïau amlwladol yn sefydlu eu hunain yng Nghymru a gweddill y DU	Mae angen i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd brandiau byd-eang Mae angen i ddysgwyr ddeall pam mae busnesau yn dymuno bod yn gwmnïau amlwladol yn cynnwys cynyddu'r gyfran o'r farchnad, costau cynhyrchu rhatach, darbodion maint, osgoi rhwystrau masnachu a grantiau llywodraeth Dylai dysgwyr wybod bod gan gwmnïau amlwladol: Effeithiau cadarnhaol megis creu swyddi, cyflwyno technoleg newydd, cyfrannu at dwf economaidd a mwy o ddewis i ddefnyddwyr Effeithiau negyddol megis difrod amgylcheddol, ecsbloetio llafur, dadsgilio swyddi ac elw yn gadael y DU
Beth yw'r Undeb Ewropeaidd a'r farchnad sengl Ewropeaidd	Mae angen i ddysgwyr feddu ar drosolwg eang o'r Undeb Ewropeaidd Nid yw gwybodaeth fanwl o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn ofynnol Mae angen i ddysgwyr ddeall cysyniad marchnad sengl Ewropeaidd a sut mae'n dylanwadu ar fusnesau yn y DU
Effaith bod yn aelod a pheidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Yn cynnwys masnach rydd rhwng aelod-wladwriaethau, symudiad rhydd llafur a rheoliadau sy'n effeithio ar fusnesau Dylai ffocws yr effaith fod ar resymau busnes aceconomaidd ac nid ar resymau gwleidyddol neu gymdeithasol Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o globaleiddio i wahanol gyd-destunau busnes

2.6 Effaith deddfwriaeth ar fusnesau	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Yr angen am ddeddfwriaeth ym myd busnes	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod yn rhaid i fusnesau weithredu o fewn cyfyngiadau deddfwriaeth
Y cyfyngiadau a'r cyfrifoldebau y mae deddfwriaeth yn eu rhoi ar weithgaredd busnes	Yn cynnwys cyfraith cyflogaeth, cyfraith defnyddwyr ac eiddo deallusol Nid yw gwybodaeth fanwl am Ddeddfau Seneddol penodol yn ofynnol
Mae cyfraith cyflogaeth yn gwarchod gweithwyr mewn nifer o ffyrdd megis contractau cyflogaeth, gwahaniaethu, cyflog cyfartal a diswyddo annheg	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod gan weithwyr hawl i dderbyn isafswm cyflog (yn cynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol), contract cyflogaeth, amodau gweithio diogel, dim gwahaniaethu a gwarchodaeth rhag diswyddo annheg
Mae cyfraith defnyddwyr yn gwarchod defnyddwyr mewn nifer o ffyrdd megis ansawdd cynhyrchion, addas i'r pwrpas, hysbysebu a disgrifiadau masnach	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod cwsmeriaid wedi eu gwarchod rhag arferion gwerthu annheg yn cynnwys ansawdd annerbyniol, arferion hysbysebu camarweiniol a'r hawl i ddisgrifiadau cywir o nwyddau.
Mae eiddo deallusol yn gwarchod y dyfeiswyr gwreiddiol, a gweithiau llenyddol ac artistig drwy ddefnyddio patentau, hawlfraint a nodau masnach	Mae angen i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth eang o sut mae hawliau eiddo deallusol yn cael eu gwarchod
Effaith deddfwriaeth ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Yn cynnwys costau ac elw, marchnata, gwerthiant, cynhyrchu a gweithgareddau adnoddau dynol Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o ddeddfwriaeth i wahanol gyd-destunau busnes

3 Gweithrediadau busnes

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod gweithrediadau busnes yn ymwneud â rheoli effeithlon ar swyddogaethau ac adnoddau allweddol mewn busnes er mwyn gwneud yr elw mwyaf posibl. Bydd busnesau yn trefnu eu gweithrediadau mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu maint, y mathau o nwyddau a gwasanaethau maent yn eu gwerthu a'r marchnadoedd maent yn gweithredu ynddynt. Bydd y cyd-destunau gwahanol hyn hefyd yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir ynglŷn â sut mae busnes yn gweithredu.

3.1 Cynhyrchu

Cynnwys	Ymhelaethiad
Dulliau cynhyrchu	Yn cynnwys cynhyrchu yn ôl y gwaith, swp-gynhyrchu a llif-gynhyrchu (masgynhyrchu)
Manteision ac anfanteision y gwahanol fathau o gynhyrchu i fusnesau a'u rhanddeiliaid	Disgwylir i ddysgwyr ddeall y rhesymau pam mae busnesau yn penderfynu ar eu dull o gynhyrchu megis cost, ansawdd a swm
Dylanwad technoleg ar gynhyrchu	Yn cynnwys awtomeiddio, Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD), Gweithgynhyrchu drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAM) a roboteg
Awgrymu'r dull cynhyrchu mwyaf priodol mewn gwahanol gyd-destunau	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ddulliau cynhyrchu i wahanol gyd-destunau busnes

3.2 Ansawdd

Cynnwys	Ymhelaethiad
Disgwyliad cwsmeriaid o ran ansawdd	Yn cynnwys cynhyrchion ffisegol a darparu gwasanaethau
Sut mae busnes yn cyflawni ansawdd	Yn cynnwys prynu'r defnyddiau crai/cydrannau priodol, cael y prosesau cynhyrchu gorau, cyflogi'r bobl briodol, hyfforddi gweithwyr a gweithredu sicrwydd ansawdd
Pwysigrwydd ansawdd i fusnes	Yn cynnwys bodloni disgwyliadau cwsmeriaid, cynyddu boddhad cwsmeriaid, cynyddu gwerthiant, lleihau costau a gwastraff
	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ansawdd i wahanol gyd-destunau busnes

3.3	Cadwyn gyflenwi
Cynnwys	Ymhelaethiad
Gwahanol gamau'r broses o symud nwyddau a gwasanaethau o'u ffynonellau i'r cwsmer terfynol: • Caffael • Logisteg • Rheoli stoc Y berthynas rhwng meysydd swyddogaethol busnes a'i gadwyn gyflenwi Effaith cyflenwad a phenderfyniadau logisteg ar fusnesau a'u rhanddeiliaid	Mae'n ofynnol i ddysgwyr feddu ar drosolwg o rôl camau caffael, logisteg a rheoli stoc y gadwyn gyflenwi Nid yw gwybodaeth fanwl am bob cam yn ofynnol Yn cynnwys adnabod cyflenwyr addas (cyrchu) a phrynu cyflenwadau Yn cynnwys cludo cyflenwadau, storio (warysu) a dosbarthu i'r cwsmer terfynol Yn cynnwys dulliau rheoli stoc traddodiadol, mewn union bryd (<i>just in time</i> (JIT) a rheoli stoc yn gyfrifiadurol Nid yw creu a dehongli diagramau stoc yn ofynnol Mae angen i ddysgwyr ddeall sut bydd y gadwyn gyflenwi yn gweithio gyda marchnata, gwerthiant a chyllid er mwyn gwireddu nodau ac amcanion y busnes Yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â ble i gyrchu cyflenwadau (megis yn fyd-eang a gwledydd llai datblygedig), ansawdd a chost cyflenwadau, sut i storio a dosbarthu cyflenwadau a chynhyrchion gorffenedig a sut i reoli stoc Mae'r effeithiau yn cynnwys costau, ansawdd nwyddau gorffenedig, dibynadwyedd dosbarthu, y broses gynhyrchu, newid prisiau, bodddhad cwsmeriaid, enw da, gwerthiant ac elw Gall yr effeithiau hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi i wahanol gyd-destunau busnes

3.4	Y broses werthu
Cynnwys	Ymhelaethiad
Gwahanol gamau'r broses werthu Sut mae'r broses werthu yn cael ei haddasu mewn gwahanol sefyllfaoedd Y berthynas rhwng gwerthiant a gweithgareddau eraill y busnes Pwysigrwydd gwasanaeth cwsmeriaid da a bodloni disgwyliadau cwsmeriaid Nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid da Y sefyllfaoedd pan fo busnes yn rhyngweithio â chwsmeriaid Sut y gweithredir gwasanaeth cwsmeriaid ar-lein	Yn cynnwys: • Paratoi drwy wybodaeth dda am y cynnyrch • Adnabod cyfleoedd gwerthu • Ymgysylltu â'r cwsmer: • Deall anghenion a chwantau cwsmeriaid • Hysbysu cwsmeriaid am nodweddion a buddion cynnyrch neu wasanaeth • Cwblhau'r gwerthiant • Dilyniant ac ôl-werthiant Yn cynnwys gwerthiant adwerthu, gwerthiant ar-lein a gwerthiant gwerth uchel Mae angen i ddysgwyr ddeall sut bydd gwerthiant yn gweithio gyda marchnata, cynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi a chyllid er mwyn gwireddu nodau ac amcanion y busnes Yn cynnwys cynyddu teyrngarwch cwsmeriaid, cynyddu gwariant cwsmeriaid, gwella enw da a denu cwsmeriaid newydd Yn cynnwys: • Cyfarch y cwsmer • Rhyngweithio â'r cwsmer • Adnabod anghenion a dymuniadau'r cwsmer • Annog adborth gan y cwsmer • Ymateb i adborth Yn cynnwys gwerthiant, ymholiadau, cwynion ac ôl-werthiant Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae busnesau ar-lein yn addasu nodweddion gwasanaeth cwsmeriaid da ar gyfer eu gwefannau Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am y broses werthu a gwasanaeth cwsmeriaid i wahanol gyd-destunau busnes

4 Cyllid

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod y swyddogaeth cyllid yn rheoli gweithgareddau ariannol busnes. Bydd ganddi nifer o rolau yn cynnwys cyllid i fusnesau newydd, paratoi a chreu cyfrifon ariannol, cynnal cofnodion ariannol, talu biliau a dadansoddi perfformiad ariannol. Bydd busnesau yn trefnu eu swyddogaeth cyllid mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu maint, y nwyddau a'r gwasanaethau maent yn eu gwerthu a'r marchnadoedd maent yn gweithredu ynddynt. Bydd y gwahanol gyd-destunau hyn hefyd yn effeithio ar y penderfyniadau ariannol a wneir gan fusnesau.

4.1 Ffynonellau cyllid

Cynnwys	Ymhelaethiad
Y prif ffynonellau cyllid mewnol ac allanol ar gyfer busnesau newydd a sefydledig	Yn cynnwys: Mewnol • Cyfalaf y perchennog • Elw cadw • Gwerthu asedau Allanol • Teulu a ffrindiau • Benthyciadau banc a gorddrafftiau • Cyfalafwyr menter ac angylion busnes • Partneriaid newydd • Dyroddi cyfranddaliadau • Credyd masnach • Prydlesu • Hurbwrcasu • Grantiau gan Lywodraeth Cymru, y DU a'r Undeb Ewropeaidd
Manteision ac anfanteision gwahanol ffynonellau cyllid	
Addasrwydd y gwahanol ffynonellau cyllid mewn gwahanol gyd-destunau megis busnesau newydd, materion llif arian ac ehangu	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ffynonellau cyllid i wahanol gyd-destunau busnes

4.2	Refeniw a chostau
Cynnwys	Ymhelaethiad
Beth yw ystyr refeniw (derbyniadau), costau, elw a cholled Cyfrifo a dadansoddi: • Costau sefydlog • Costau newidiol • Cyfanswm costau • Cyfanswm refeniw • Elw/colled Beth yw ystyr adennill costau Creu a dadansoddi siart adennill costau Cyfrifo adennill costau drwy gyfraniad Effeithiau newidiadau mewn costau a/neu brisiau ar adennill costau Defnyddio elw fel gwobr am fuddsoddi mewn busnes	Disgwylir i ddysgwyr ddeall pwrpas adennill costau a sut mae hynny'n helpu busnes i ddeall ei gostau, refeniw ac elw posibl er mwyn hysbysu penderfyniadau busnes Disgwylir i ddysgwyr lunio siart adennill costau, plotio costau sefydlog, costau newidiol, cyfanswm costau a chyfanswm refeniw er mwyn dangos ble mae'r trothwy elw (pwynt adennill costau) Disgwylir i ddysgwyr gyfrifo adennill costau am bob uned gan ddefnyddio'r fformiwla: <u>costau sefydlog</u> cyfraniad am bob uned (cyfraniad yw pris gwerthu - cost newidiol) Disgwylir i ddysgwyr fod yn ymwybodol o effaith costau newidiol a refeniw ar adennill costau a chymhwyso hynny i wahanol senarios 'beth petai' Disgwylir i ddysgwyr ddehongli data adennill costau er mwyn hysbysu penderfyniadau busnes Mae angen i ddysgwyr ddeall mai elw yw prif gymhelliant buddsoddi a dyma sy'n mesur llwyddiant Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am refeniw, costau, elw ac adennill costau i wahanol gyd-destunau busnes

4.3 Cyfrifon elw a cholled(datganiadau incwm)	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Prif elfennau cyfrif elw a cholled Creu a chyfrifo cyfrif elw a cholled Dehongli cyfrif elw a cholled Cyfrifo a dehongli maint yr elw crynswth a net er mwyn rhoi sylwadau ar berfformiad busnes Argymhell a chyfiawnhau sut i wella elw/lleihau costau	Yn cynnwys trosiant gwerthiant (refeniw/derbyniadau), cost gwerthiant, elw crynswth, treuliau ac elw net Disgwylir i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd y cyfrif elw a cholled i fusnesau a'u rhanddeiliaid Disgwylir i ddysgwyr wybod am, deall a defnyddio fformiwlâu maint yr elw crynswth (GPM) a maint yr elw net (NPM): $\frac{\text{elw crynswth}}{\text{gwerthiant}} \times 100$ er mwyn rhoi GPM fel canran (%) $\frac{\text{elw net}}{\text{gwerthiant}} \times 100$ er mwyn rhoi NPM fel canran (%) Disgwylir i ddysgwyr ddehongli GPM a NPM drwy gymharu data o fusnes unigol neu wahanol fusnesau dros gyfnod o amser Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am elw a cholled, GPM ac NPM er mwyn hysbysu penderfyniadau busnes
4.4 Llif arian	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Pwysigrwydd arian parod i fusnesau Beth yw ystyr rhagolwg llif arian Creu, cyfrifo a dehongli rhagolygon llif arian Effaith rhagolygon llif arian ar fusnes a'i rhanddeiliaid Argymhell a chyfiawnhau'r hyn y gellir ei wneud i wella problemau llif arian	Disgwylir i ddysgwyr wybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng arian parod ac elw Mae angen i ddysgwyr ddeall mai rhagfynegiad yw hyn o fewnlifoedd ac all-lifoedd arian yn y dyfodol ar gyfer busnes Yn cynnwys refeniw, cyfanswm refeniw, treuliau, cyfanswm treuliau, llif arian net, gweddill agoriadol a gweddill terfynol Disgwylir i ddysgwyr ddehongli'r data a'r cyfrifiadau mewn rhagolwg llif arian er mwyn rhoi sylwadau ar sefyllfaoedd llif arian Disgwylir i ddysgwyr ddeall sut y gellir defnyddio rhagolygon llif arian er mwyn llywio penderfyniadau busnes Yn cynnwys cynyddu refeniw, lleihau costau, oedi taliadau a chyllid ychwanegol Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am lif arian i wahanol gyd-destunau busnes
4.5 Perfformiad Ariannol	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Defnyddio data am refeniw, costau, cyfrifon elw a cholled a llif arian er mwyn dadansoddi perfformiad busnes a gwneud penderfyniadau busnes	Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am wybodaeth ariannol er mwyn dadansoddi data, datrys problemau, gwerthuso a hysbysu penderfyniadau busnes mewn gwahanol gyd-destunau Disgwylir i ddysgwyr hefyd ystyried data ansoddol er mwyn hysbysu penderfyniadau busnes

5 Marchnata

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod marchnata yn cynnwys adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid mewn ffordd sy'n gwneud elw. Mae marchnata yn effeithio ar holl weithgareddau busnes ac mae'n cynnwys amrediad eang o weithgareddau yn cynnwys ymchwilio i'r farchnad, dadansoddi'r farchnad a datblygu strategaeth farchnata drwy weithredu'r cymysgedd marchnata. Bydd busnesau yn trefnu eu swyddogaeth farchnata mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu maint, y nwyddau a'r gwasanaethau maent yn eu gwerthu a'r marchnadoedd maent yn gweithredu ynddynt. Bydd y cyd-destunau gwahanol hyn hefyd yn effeithio ar benderfyniadau marchnata.

5.1 Adnabod a deall cwsmeriaid

Cynnwys	Ymhelaethiad
Pwysigrwydd adnabod a deall cwsmeriaid i fusnesau Sut mae marchnadoedd yn cael eu segmentu Y rhesymau pam mae busnesau yn segmentu'r farchnad	Mae angen i ddysgwyr ddysgu am bwysigrwydd adnabod y cwsmeriaid priodol a sut y bydd deall eu hanghenion yn cyfrannu at lwyddiant busnes Yn cynnwys oed, rhywedd, incwm, ystyriaethau daearyddol a ffordd o fyw Yn cynnwys rhaniad marchnadoedd torfol, er mwyn targedu'r cynhyrchion priodol at y bobl briodol, er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid, er mwyn cynyddu gwerthiant ac elw Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am segmentu i wahanol gyd-destunau busnes

5.2 Ymchwil marchnata

Cynnwys	Ymhelaethiad
Pwrpas a phwysigrwydd cynnal ymchwil marchnata Gwahaniaethu rhwng ymchwil cynradd (maes) ac ymchwil eilaidd (desg) Dulliau ymchwil cynradd ac eilaidd Manteision ac anfanteision cynnal ymchwil cynradd ac/neu eilaidd i wahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios Yr angen am y data ymchwil marchnata mwyaf diweddar a chywir Gwahaniaethu rhwng data ymchwil marchnata ansoddol a meintiol Dehongli, dadansoddi a gwerthuso data ymchwil marchnata er mwyn datrys problemau a hysbysu penderfyniadau busnes	Yn cynnwys: Cynradd • Arolygon • Grwpiau ffocws • Paneli defnyddwyr • Cyfweiliadau • Arsylwi Eilaidd • Ffynonellau mewnol megis gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am werthiant • Ffynonellau allanol megis ffynonellau llywodraeth, y rhyngrwyd, gwybodaeth am gystadleuwyr, papurau newydd a chylchgronau Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am ymchwil marchnata i wahanol gyd-destunau busnes Mae angen i ddysgwyr adnabod cyfyngiadau data ymchwil marchnata Yn cynnwys data ansoddol a meintiol, graffiau, tablau a siartiau

5.3 Y cymysgedd marchnata	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Yr angen i fusnesau greu cymysgedd llwyddiannus o'r cynnyrch iawn, sy'n cael ei werthu am y pris iawn, yn y man iawn a gyda'r dull hyrwyddo mwyaf addas	
Sut mae pedair elfen y cymysgedd marchnata (4Ps), cynnyrch, pris, hyrwyddo a lleoliad, yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu nodau ac amcanion busnes	Mae angen i ddysgwyr ddeall y bydd busnes yn cyfuno holl elfennau'r cymysgedd marchnata er mwyn datblygu strategaeth farchnata
Sut y defnyddir y cymysgedd marchnata i hysbysu penderfyniadau busnes a'u rhoi ar waith	Mae angen i ddysgwyr ddeall mai'r cymysgedd marchnata yw'r arf ar gyfer rhoi'r strategaeth farchnata ar waith ac y bydd yn gweithio gyda swyddogaethau eraill y busnes megis gweithrediadau, cyllid a gwerthiant, er mwyn gwireddu nodau ac amcanion y busnes
Sut y bydd busnesau yn newid eu cymysgedd marchnata dros gyfnod o amser ac fel ymateb i ffactorau newidiol y farchnad	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod rhaid i strategaethau marchnata addasu i amodau newidiol y farchnad ac efallai y bydd yn rhaid i elfennau'r cymysgedd marchnata gael eu haddasu er mwyn sicrhau llwyddiant y busnes
Sut mae'r cymysgedd marchnata yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o fusnes a busnesau o wahanol faint	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am y cymysgedd marchnata i wahanol gyd-destunau busnes
5.4 Cynnyrch	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Cynnyrch yw unrhyw nwydd neu wasanaeth sy'n cael ei werthu i gwsmeriaid	Disgwylir i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o: • Bortffolio cynnyrch • Gwahaniaethu rhwng cynnyrch • Brand • Pecynnu • Dylunio cynnyrch ac arloesedd • Pwynt gwerthu unigryw (USP)
Defnyddio diagram cylchred oes cynnyrch er mwyn dangos sut y gall y galw am gynnyrch neu wasanaeth newid dros gyfnod o amser	
Cyfnodau cylchred oes cynnyrch	Yn cynnwys cyflwyniad/lansiad, twf, aeddfedrwydd, dirlawnder a dirywiad
Beth yw ystyr strategaeth estyn	Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o enghreifftiau perthnasol megis fersiynau newydd, newid y pecynnu, marchnadoedd newydd a defnyddiau newydd
Creu a dehongli diagram cylchred oes cynnyrch	Disgwylir i ddysgwyr ddeall beth sy'n digwydd ym mhob cam o ran gwerthiant, refeniw a chostau
Defnyddioldeb cylchredau oes cynnyrch wrth wneud penderfyniadau busnes	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am gylchoedd oes cynnyrch i wahanol gyd-destunau busnes

5.5 Pris	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y gwahanol strategaethau prisio sy'n cael ei ddefnyddio gan fusnesau	Yn cynnwys: • Cost plws • Cystadleuol • Treiddio • Sgimio • Seicolegol • Nwyddau ar golled • Gwahaniaethu o ran pris
Y defnydd o wahanol strategaethau prisio ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am strategaethau prisiau i wahanol gyd-destunau busnes
5.6 Hyrwyddo	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y dulliau hyrwyddo sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau	Yn cynnwys: • Hysbysebu • Hyrwyddo gwerthiant • Marchnata uniongyrchol
Y cyfryngau sydd ar gael i fusnesau wrth hysbysebu eu cynnyrch a'u gwasanaethau	Yn cynnwys: • Y wasg leol a chenedlaethol (papurau newydd, cylchgronau a chyfnodolion) • Ar-lein • Radio • Teledu • Sinema • Pwynt talu • Taflenni • Rhestrau cyfeirlyfrau
Sut mae technoleg wedi effeithio ar weithgareddau hyrwyddo busnesau	Yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, blogiau, hysbysebu ar beiriannau chwilio, hysbysebion naid, hysbysebion digidol a hysbysebu symudol
Pwysigrwydd dewis y dull hyrwyddo mwyaf priodol i wahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am hyrwyddo i wahanol gyd-destunau busnes

5.7 Lleoliad	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Y sianeli sy'n cael eu defnyddio i ddosbarthu'r cynhyrchion i'r cwsmer	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod lleoliad yn cyfeirio at y farchnad, ble mae prynwyr a gwerthwyr yn cyfarfod ac yn cyfnewid taliadau am nwyddau a gwasanaethau
Y gwahanol sianeli dosbarthu sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau	Yn cynnwys: • Gwneuthurwr - Cyfanwerthwr - Adwerthwr - Defnyddiwr • Gwneuthurwr - Adwerthwr - Defnyddiwr • Gwneuthurwr - Defnyddiwr
Rôl a phwysigrwydd cynyddol e-fasnach ac m-fasnach (siopa ar-lein)	Dylai dysgwyr ddeall effaith y sianel ddosbarthu a ddewisir ar y pris terfynol
Sut mae busnesau yn defnyddio dosbarthu aml-sianel	Yn cynnwys sut mae'r rhain wedi effeithio ar allfeydd adwerthu ffisegol
Pwysigrwydd dewis y farchnad a'r sianel ddosbarthu fwyaf priodol i fusnes ar gyfer eu nwyddau a'i wasanaethau	Mae angen i ddysgwyr ddeall bod dosbarthu aml-sianel yn cynnig dewis o ffyrdd i'r cwsmer brynu cynnyrch, megis siop, gwefan y busnes ei hun, gwefan gymharu, ffôn a chatalog, er mwyn sicrhau'r gwerthiant, elw a theyrngarwch mwyaf drwy roi dewis a hwylustod i gwsmeriaid
	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am lleoliad i wahanol gyd-destunau busnes

6 Adnoddau dynol

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod adnoddau dynol yn canolbwyntio ar y swyddogaeth ddynol mewn busnes. Mae'n cynnwys recriwtio, hyfforddiant, trefnu, cadw, datblygu a chymhelliant gweithwyr. Bydd rheolwyr adnoddau dynol yn gweithio gyda swyddogaethau eraill y busnes er mwyn cyfrannu at nodau ac amcanion y busnes a'u cyfarwyddo. Bydd busnesau yn trefnu eu swyddogaeth adnoddau dynol mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar eu maint, y nwyddau a'r gwasanaethau maent yn eu gwerthu a'r marchnadoedd maent yn gweithredu ynddynt. Bydd y cyd-destunau gwahanol hyn hefyd yn effeithio ar benderfyniadau mewn perthynas ag adnoddau dynol.

6.1 Recriwtio	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Pwysigrwydd cael proses recriwtio effeithiol er mwyn cyflogi'r bobl briodol sydd â'r sgiliau gwaith priodol Y broses recriwtio a sut mae hynny yn wahanol mewn gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau Y dulliau recriwtio gwahanol sy'n cael eu defnyddio gan wahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau Manteision ac anfanteision dulliau recriwtio gwahanol Y dulliau a'r prosesau recriwtio mwyaf priodol ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Yn cynnwys: • Adnabod swyddi gwag • Paratoi disgrifiad swydd a manyleb y person • Hysbysebu • Rhestr fer • Geirdaon • Cyfweliad • Dewis a phenodi Yn cynnwys: • Hysbysebu – mewnlol/allanol, asiantaethau recriwtio a dewis cyfryngau • Dull ymgeisio – llythyrau cais, curriculum vitae (CV) a chyswllt anffurfiol • Cyfweliad – wyneb yn wyneb, ffôn ac ar-lein • Dewisiadau yn lle cyfweliad – prawf sgiliau, prawf cymhwyster, profion grwpiau a chwarae rôl Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am recriwtio i wahanol gyd-destunau busnes

6.2 Hyfforddiant	
Cynnwys	Ymhelaethiad
Buddion hyfforddiant effeithiol	Yn cynnwys morâl gweithwyr, gwell cynnyrch/gwasanaethau, gwell boddhad cwsmeriaid, llai o wastraff, bod gam ar y blaen i'r cystadleuwyr a lleihau costau
Y sefyllfaoedd pan fydd angen hyfforddiant	Yn cynnwys sefydlu, ailhyfforddi, technoleg newydd, gofynion iechyd a diogelwch newydd a chreu cyfleoedd i gyflogeion
Y mathau gwahanol o hyfforddiant:	Disgwylir i ddysgwyr ddeall y gwahanol fathau o:
Yn y gwaith	Hyfforddiant yn y gwaith megis arddangos, hyfforddi, mentora, cysgodi a chylchdroi swyddi
I ffwrdd o'r gwaith	Hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith megis oddi ar y safle, ar gyfrifiadur, cyrsiau rhyngosod a defnyddio hyfforddwyr allanol
Manteision ac anfanteision hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith	
Yr hyfforddiant mwyaf priodol i gyflogeion ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am hyfforddiant i wahanol gyd-destunau busnes

6.3	Cymhelliant
Cynnwys	Ymhelaethiad
Buddion gweithlu â chymhelliant Y dulliau mae busnesau yn eu defnyddio i gymell eu gweithluoedd Y dull mwyaf priodol y gall busnes ei ddefnyddio i gymell gweithwyr mewn gwahanol gyd-destunau a senarios	Yn cynnwys llai o absenoldebau, cadw gweithwyr (lefelau isel o drosiant staff), gwell perthynas rhwng rheolwyr a gweithwyr, gwell perfformiad gan weithwyr, gwell ansawdd a gwell gwasanaeth cwsmeriaid Yn cynnwys: Dulliau ariannol • Cyflogau yn cynnwys talu cyflog teg, cyfradd yn ôl amser, cyfradd yn ôl y gwaith a goramser • Cyflogau • Tâl ar sail perfformiad yn cynnwys talu bonws a chomisiwn • Rhannu elw • Cîlfanteision ariannol megis disgowntiau staff a char cwmni Dulliau anariannol • Helaethu swyddi • Cylchdroi swyddi • Cyfoethogi swyddi • Grymuso • Hyfforddiant Nid yw gwybodaeth am ddamcaniaethau cymelliannol yn ofynnol Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am gymhelliant i wahanol gyd-destunau busnes

6.4	Strwythurau trefniadaeth
Cynnwys	Ymhelaethiad
Gwybod bod angen i fusnesau o bob maint drefnu eu gweithluoedd	
Y rolau swyddi a chyfrifoldebau gwahanol mewn busnes	Yn cynnwys arweinwyr/perchenogion, rheolwyr, goruchwylwyr a gweithwyr
Nodweddion rolau swyddi gwahanol	Yn cynnwys cyfrifoldebau, awdurdod, gwneud penderfyniadau, sgiliau a rhinweddau, dirprwyo a chyflog a buddion
Nodweddion strwythurau llorweddol (fflat) a strwythurau hierarchaidd (tal)	Mae angen i ddysgwyr ddeall y gellir trefnu strwythurau yn ôl swyddogaeth (adran), cynnyrch neu ddaearyddiaeth
Manteision ac anfanteision defnyddio strwythurau trefniadaeth gwahanol	Yn cynnwys sut mae busnesau yn datrys y problemau sy'n gysylltiedig â strwythurau hierarchaidd, megis dirprwyo, dihaenu, a gwella cyfathrebu
Dehongli siartiau trefniadaeth ar gyfer strwythurau fflat a thal	Yn cynnwys lleoli swyddi gwahanol, y gadwyn awdurdod, rhychwant rheoli a llwybrau cyfathrebu
Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y gweithle a chanlyniadau cyfathrebu gwael	Mae pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn cynnwys mwy o gyfranogiad cyflogeion, gwell cymhelliant, gweithio tuag at yr un nodau ac amcanion, cynorthwyo gwneud penderfyniadau a galluogi adborth gweithwyr Mae canlyniadau cyfathrebu gwael yn cynnwys morâl isel ymysg gweithwyr, mwy o absenoldebau, llai o gydweithredu ymysg gweithwyr, camau/gweithgareddau anghyflawn a gostyngiad mewn effeithlonrwydd
Natur esblygol arferion gweithio	Yn cynnwys oriau hyblyg, gweithio o'r cartref, rhannu swyddi a chontractau dim oriau
Sut y bydd strwythurau trefniadaeth ac arferion gweithio yn wahanol rhwng busnesau a sut mae hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau megis maint y busnes, ei amcanion a'r farchnad mae'n gweithredu ynddi	Mae disgwyl i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth am strwythurau trefniadaeth ac arferion gweithio i wahanol gyd-destunau busnes

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu gallu i:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes i amrywiaeth o gyd-destunau busnes

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion busnes er mwyn dangos dealltwriaeth o weithgaredd busnes, gwneud penderfyniadau a llunio casgliadau

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	25%	22.5%	15%	62.5%
Uned 2	10%	12.5%	15%	37.5%
Cyfanswm	35%	35%	30%	100%

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2019.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob uned arholiad yn yr un gyfres.

Mae'r cod cofrestru'n cael ei ddangos isod.

Teitl	Codau Cofrestru	
	Saesneg	Cymraeg
CBAC TGAU Busnes	3510QS	3510CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD

Defnyddio sgiliau meintiol

Mae'r rhestr isod yn nodi amrediad a faint o dechnegau mathemategol sy'n briodol ar gyfer TGAU Busnes. Gan ddefnyddio cynnwys TGAU Busnes, mae'n ofynnol i ddysgwyr gymhwyso'r sgiliau hyn i gyd-destunau busnes perthnasol.

Cyfrifiadau mewn cyd-destun busnes, yn cynnwys:

- canrannau a newidiadau mewn canrannau
- cyfartaleddau
- refeniw, costau ac elw
- maint yr elw crynswth a chymarebau maint yr elw net
- rhagolygon llif arian, yn cynnwys cyfanswm costau, cyfanswm refeniw a llif arian net

Dehongli a defnyddio data meintiol mewn cyd-destunau busnes er mwyn cefnogi, hysbysu a chyfiawnhau penderfyniadau busnes, yn cynnwys:

- gwybodaeth o graffiau a siartiau
- cymarebau proffidioldeb (maint yr elw crynswth a maint yr elw net)
- data ariannol, yn cynnwys elw a cholled a rhagolygon llif arian
- data marchnata, yn cynnwys data ymchwil i'r farchnad
- data am y farchnad, yn cynnwys cyfran o'r farchnad, newidiadau mewn costau a newidiadau mewn prisiau